

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Hysbysiad Atafaelu Cerbyd



Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yr awdurdod i atafaelu cerbyd, ôl-gerbyd, neu offer symudol, ynghyd â'r cynnwys, os byddwn ni o'r farn y caiff y rhain eu defnyddio ar gyfer troseddau gwastraff, megis gadael gwastraff yn anghyfreithlon (tipio).

Pryd cawn ni atafaelu cerbyd

Byddwn ni'n atafaelu cerbyd os ydy:

- wedi cael ei ddefnyddio i adael gwastraff yn anghyfreithlon (tipio) mewn ffordd y gallai achosi llygredd yn yr amgylchedd neu niwed i iechyd pobl
- wedi cael ei yrru gan rywun sydd heb ei gofrestru ar gyfer cludo gwastraff
- wedi cael ei ddefnyddio i drosglwyddo gwastraff i rywun sydd heb ei gofrestru ar gyfer cludo gwastraff
- wedi cael ei ddefnyddio ar safle sy'n torri rheolau trwydded amgylcheddol.

Cerbydau rydyn ni wedi'i hatafael

Rhaid inni ryddhau gwybodaeth am y cerbydau rydyn ni'n eu hatafael i'r cyhoedd am o leiaf 15 diwrnod. Mae hysbysiaidau ar gael ar ein gwefan ac yn swyddfa Tŷ Glan-taf, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, CF37 5TT.

Cerbydau wedi'u hatafael: **LORI FORD TRANSIT 350 MWB TD DROPSIDE – Cofrestrif Y668 KBH**

Dyddiad Atafaelu: **Ar 25 Awst 2017 am 14:00 yn Maxwell Street, Glynrhedynog**
Dyddiad iddo gael ei ganfod heb berchennog presennol **Ar 12 Ebrill 2018**

Hawlio'ch cerbyd

I hawlio'ch cerbyd, rhaid mai chi yw **perchennog cyfreithiol y cerbyd**. I brofi hynny, mae rhaid anfon copi o:

- dogfen gofrestru V5C y cerbyd yn eich enw chi, gan nodi'ch cyfeiriad cywir
- tystysgrif gyfredol o yswiriant y cerbyd yn eich enw chi, gan nodi'ch cyfeiriad cywir.

Rhaid i chi hefyd anfon copi o'ch trwydded yrru yn brawf o'ch hunaniaeth.

Rhaid anfon y dogfennau yma mewn ebost i; **Ailgylchu@rhondda-cynon-taf.gov.uk**

Byddwn ni'n penderfynu p'un ai chi yw'r perchennog cyn pen tri diwrnod gwaith.

Os penderfynwn beidio ag ymchwilio ymhellach nac erlyn, bydd 10 diwrnod gwaith gyda chi i gasglu'ch cerbyd. Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi o ble i gasglu'ch cerbyd.

[RHAID I CHI HEFYD DDOD Â'R DOGFENNAU GWREIDDIOL GYDA CHI ADEG CASGLU'R CERBYD.](#)

Os byddwn ni'n penderfynu ymchwilio neu erlyn

Mae hawl gyda ni i gadw'ch cerbyd am hyd at 15 diwrnod gwaith os bydd angen inni ymchwilio i drosedd. Efallai byddwn ni'n cadw'r cerbyd am gyfnod hwy i barhau ag ymchwiliad neu os byddwn ni'n penderfynu erlyn.

Os bydd ein hymchwiliad yn dangos bod eich cerbyd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer trosedd gwastraff, byddwn ni bob amser yn ystyried eich erlyn chi ac yn gwaredu neu'n gwerthu'r cerbyd.

Byddwn ni'n cadw'ch cerbyd yn ystod y broses lys. Serch hynny, os bydd y llys yn penderfynu'ch bod chi wedi cyflawni trosedd gwastraff, efallai y caiff y cerbyd ei atafaelu'n barhaol.